Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA)

Canllawiau Ymarfer

Fersiwn 4

Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Fersiwn	Nodiadau	Perchennog	Dyddiad Cyhoeddi	Cymeradwy i'r Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu	Statws
V1		D Beacroft	Awst 2017			Drafft
V2	Ymgynghori â'r GGLI ac Is-grwpiau Adolygu Ymarfer	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	Hydref 2017	Hydref 2017	Hydref 2018	Cymeradwy
V3	Ymgynghori â phartneriaid yr FfPA Rhanbarthol	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	Mai 2018	Gorffennaf 2018	Gorffennaf 2019	Cymeradwy
V4	Ymgynghori â phartneriaid yr FfPA Rhanbarthol	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	Hydref 2019	Hydref 2019	Hydref 2020	Cymeradwy

CANLLAWIAU YMARFER

1. Diben FfPA

Mae'r FfPA yn rhan o'r rhaglen ddi-dor o ddysgu gweithredol ledled rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru a bydd yn cadw golwg dros ddigwyddiadau dysgu o achosion a lledaenu ac archwilio dysgu o archwiliadau, arolygon, adolygiadau ac ymchwil.

2. Amlinell o Swyddogaethau

- Rhoi sylfaen i ddysgu trefnyddol.
- Gwella ansawdd gwaith gydag oedolion, teuluoedd / plant a holl ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Atgyfnerthu gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel.
- Sicrhau dysgu a datblygu proffesiynol lluosog lleol parhaus.

3. Cyd-destun a Chanllawiau Deddfwriaethol

- Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Codau Ymarfer Cyfrolau 2 a 3.

4. Dull Gweithredu ar gyfer digwyddiadau dysgu

- Bydd pob awdurdod yn cynnal o leiaf 2 digwyddiad dysgu'r flwyddyn (1 oedolion / 1 plant) a rhannu'r dysgu gyda'r FfPA.
- Bydd y digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn amgylchedd sy'n darparu cefnogaeth a her broffesiynol ddiogel.
- Rhaid i'r broses fod ynghylch dysgu agored a didwyll ac nid ynghylch dosrannu bai.
- Bydd casgliad eglur o egwyddorion gweithio'n cael ei gytuno ar ddechrau pob digwyddiad.
- Bydd staff yn cael cyfarwyddyd ar beth i'w ddisgwyl, pa baratoi sy'n ofynnol a sut fyddant yn gwneud eu cyfraniad.
- Bydd y digwyddiadau yn cael eu hwyluso trwy drafod, ymgynghori a myfyrio.
- Bydd naws "Arwyddion Diogelwch" yn sail i'r digwyddiadau dysgu.
- Bydd cydgyfrinachedd yn cael ei gynnal.
- Bydd y dysgu o ymarfer yn cael ei gofnodi yn ystod y digwyddiad, a'i hysbysu'n ffurfiol i'r GGLl ac i'r FfPA
- Bydd yr asiantaethau priodol yn rheoli anghenion hyfforddi staff unigol, camymarfer staff neu ddiofalwch sy'n dod i'r amlwg.
- Bydd unrhyw newidiadau mewn polisi, protocolau neu gyflenwi gwasanaethau o ganlyniad i'r digwyddiad dysgu yn digwydd mor fuan ag y bo modd.

DRAFT

5. Atebolrwydd a llinell atebolrwydd

Bydd y FfPA yn atebol i CYSUR a CWMPAS: Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd llinellau cyfathrebu clir hefyd gyda phob Grŵp Gweithredol Lleol (GGLl).

6. Aelodaeth y FfPA

- Rheolwyr perthnasol yn cynrychioli diogelu Oedolion a Phlant (2 o diriogaeth pob awdurdod)
- Rheolwr Busnes ar gyfer Bwrdd Diogelu Rhanbarthol CAGC
- Rheolwr perthnasol ar gyfer Addysg / Addysg Bellach
- Rheolwr perthnasol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys) (BIPHDd a BAIP)
- Rheolwr perthnasol (Heddlu Dyfed Powys)
- Rheolwr perthnasol (Profiannaeth)
- Aelodau cyfetholedig yn ôl y gofyn e.e. Llywodraethu Gwybodaeth a Rheolwyr Cwynion

7. Gweinyddu

- Bydd yr Uned Fusnes Ranbarthol yn rhoi cymorth gweinyddol i'r FfPA
- Bydd papurau cyfarwyddo a chrynodebau achosion, pan fo hynny'n briodol, yn cael eu cylchredeg cyn pob digwyddiad
- Bydd cymorth gweinyddol i'r digwyddiadau dysgu'n cael ei roi o fewn yr awdurdod lleol

8. Amlder cyfarfodydd

Bydd y Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

9. Adolygu Canllawiau Ymarfer

Bydd Bwrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru'n adolygu'r Canllawiau Ymarfer ymhen 12 mis, a phob blwyddyn wedi hynny.

10. CIST OFFER

Caiff y dogfennau a thempledi canlynol eu hatodi i gynorthwyo cynnal digwyddiadau dysgu yn y rhanbarth:

A. Cyfeireb FfPA
B. Egwyddorion Gweithio
C. Siart Llif FfPA
D. Templed Cyfarfod Cynllunio Digwyddiad Dysgu FfPA
E. Templed Llythyr Gwahodd i Digwyddiad Dysgu
F. Templed Agenda Digwyddiad Dysgu
G. Templed Ffurflen Arfarnu
H. Templed Diolch
I. Templed Adroddiad
J. Templed Cynllun Gweithredu

DRAFFT

Helaethiad A

Cyfeireb FfPA

Enw'r cyfeirydd:	Cyfarwyddiaeth / Adran / Asiantaeth:	Cyfeiriad E-bost:	Rhif Cyswllt:

Manylion y gwrthrych			
Enw neu lythrennau blaen:	**Dyddiad geni:**	**E-rif (pan fo hynny'n briodol):**	**Dyddiad y digwyddiad / farwolaeth:**

Pam ydych chi'n cyfeirio hyn ar gyfer FfPA, AYP neu AYO? (Rhowch amlinell gryno o'r achos a chyfeiriwch at y canllawiau drwy'r ddolen isod)
https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Working_Together_to_Safeguard_People-_Volume_2_____Child_Practice_Reviews.pdf
https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Welsh_language_skills_in_your_workforce-_Early_Years_and_Childcare.pdf

Oes yna gyfranogiad amlasiantaethol? (Rhowch amlinelliad o ba asiantaethau sydd / oedd dan sylw a beth oedd / yw eu swyddogaethau /cyfranogiad unigol)

Rhowch fanylion cyswllt allweddol ar gyfer pob asiantaeth. (Cofiwch ddweud wrthynt eich bod yn gwneud y gyfeireb oherwydd y gallwn gysylltu â nhw i gael rhagor o wybodaeth)		
Asiantaeth:	**Gweithiwr Proffesiynol:**	**Cyfeiriad E-bost:**
Asiantaeth:	**Gweithiwr Proffesiynol:**	**Cyfeiriad E-bost:**
Asiantaeth:	**Gweithiwr Proffesiynol:**	**Cyfeiriad E-bost:**
Asiantaeth:	**Gweithiwr Proffesiynol:**	**Cyfeiriad E-bost:**

Beth ydych chi'n gobeithio y gallai FfPA, AYP neu AYO ei gyflawni? **(Sylwch mai elfen allweddol o adolygiad yw digwyddiad dysgu amlasiantaethol i ymarferwyr cysylltiedig â'r achos a chyhoeddi adroddiad ar gyfer AYP ac AYO)**
Pa gyfranogiad neu gysylltiad â'r gwrthrych neu deulu fu yna ynghylch y gyfeireb hon, a phwy fyddai'r unigolyn gorau i gadw cyswllt â'r gwrthrych / teulu o hyn ymlaen?

Rhowch enw arweinydd eich asiantaeth i ddwyn yr adolygiad hwn ymlaen (dylai'r cyfryw unigolyn fod yn ddigon uchel i hwyluso presenoldeb staff a bydd yn cymryd rhan flaenllaw yng nghynllunio a chyflawni'r Digwyddiad Dysgu).

Rhowch linell amser o ddigwyddiadau allweddol trwy ddefnyddio'r templed isod. (Dylai hyn gwmpasu'r 12 mis cyn y digwyddiad / farwolaeth. Os oes digwyddiadau arwyddocaol a pherthnasol oddi allan i'r amserlen 12 mis, cofiwch eu cynnwys)

Dyddiad	Ffynhonnell y wybodaeth	Math o gyfathrebu / Digwyddiad	Disgrifiad cryno	Ymateb a chamau a gymrwyd	Swyddog / Unigolyn Atebol

DRAFFT

BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

EGWYDDORION GWEITHIO FfPA

1. Mae gan bob aelod o'r grŵp gyfraniad dilys i'w wneud a fydd yn cael ei werthfawrogi a'i glywed.

2. Pan fo gwahaniaethau barn, bydd y rhain yn cael eu clywed neu eu cwestiynu'n ystyriol mewn ffordd sy'n adeiladol a galluogol i broses y grŵp a'i amcanion.

3. Rydym i gyd yn ymdrechu i herio a rhoi sylw i arferion gormesol yn ein gwaith a bydd y grŵp cyfan yn rhannu cyfrifoldeb dros roi sylw i ymddygiad neu iaith ormesol mewn ffordd sy'n deimladol ac adeiladol.

4. Bydd cyfranogwyr yn ategu egwyddor cydgyfrinachedd ynghylch teimladau neu faterion personol sy'n cael eu rhannu yn ystod ein gwaith gyda'n gilydd.

5. Bydd cwestiynau diniwed yn cael eu hystyried fel y safon.

a hefyd… Beth arall sydd angen i *chi* ei gytuno er mwyn cyfranogi'n llawn ac effeithiol?

Helaethiad C

Siart Llif FfPA



DRAFT

Helaethiad D Templed Cyfarfod Cynllunio Digwyddiad Dysgu FfPA

1. **Aelodaeth y Grŵp Cynllunio:**
   - Dylai aelodaeth gynrychioli'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos a'r teulu / gofalwyr.
   - Cytuno ar gadeirydd gyda phrofiad addas.
   - Rhaid i aelodau fod o haen uchel briodol a gweithredu fel yr un man cyswllt am eu sefydliad / asiantaeth / gwasanaeth / adran briodol.
   - Dylid cynnal cysondeb aelodaeth Cyfarfodydd Cynllunio.
2. **Gwybodaeth gefndirol a'r sefyllfa bresennol:**
   - Rhoi cefndir cryno a sefyllfa bresennol yr achos dan sylw, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:
     - Man cychwyn a sail resymegol y gyfeireb i FfPA.
     - Cefndir yr unigolyn / teulu dan sylw yn yr adolygiad.
     - Cyfnod y digwyddiadau i'w cytuno ar gyfer y broses, a sail resymegol.
     - Cwestiynau i'w defnyddio / addasu ar gyfer y Digwyddiad Dysgu:
       i. Beth lwyddodd, beth oedd yr arferion da a welwyd?
       ii. Beth na lwyddodd yn ein barn?
       iii. Beth wnaem ni'n wahanol, beth ddysgwyd gennym?
       iv. Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd gennym yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol?
3. **Darnau gwaith allweddol a Hwyluswyr:**
   - Cyn y Digwyddiad Dysgu:
     - Gweinyddiad, gan gynnwys dyddiad, amser, hyd a lleoliad priodol.
     - Aelodau grŵp cynllunio i gyfarwyddo mynychwyr; cytuno ar ddarllen o flaen llaw a gwahoddiadau.
     - Cytuno ar swyddogaethau yn y digwyddiad dysgu.
   - Hwyluso'r Digwyddiad Dysgu / Swyddogaethau:
     - Cadeirio'r cyfarfod, cyflwyniadau a disgrifio'r amgylchiadau, gan gynnwys sail resymegol i gynnal y FfPA a chefndir yr achos.
     - Esbonio'r llinell amser.
     - Cyflwyno sylwadau'r teulu / rhieni / gofalwyr.
     - Hyrwyddo'r pedwar cwestiwn allweddol.
     - Ysgrifennwr yr adroddiad i fynychu'r Digwyddiad Dysgu a dechrau drafftio'r adroddiad a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y trafodaethau.
4. **Cysylltiad a chyfranogiad teuluol:**
   - Cytuno ar aelod o'r grŵp cynllunio fel yr unigolyn mwyaf priodol i fod yr un man cyswllt â'r teulu / gofalwyr.
   - Cytuno ar y dull mwyaf addas a theimladol o gael sylwadau'r teulu / gofalwyr, egluro proses a nodau'r FfPA, a chynnwys y sylwadau yn y Digwyddiad Dysgu a'r adroddiad.
   - Dylid cynnal cyfarfodydd gyda'r teulu / gofalwyr cyn, ac ar ôl, y Digwyddiad Dysgu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gael y sylwadau'r teulu, a dweud wrthynt am unrhyw argymhellion ar wella arferion / systemau. Ble bynnag y bo modd dylai teuluoedd gael copi o'r adroddiad.

DRAFT

5. **Ymarferwyr sydd i fynychu'r Digwyddiad Dysgu:**
   - Rhaid i'r Digwyddiad Dysgu fod yn ffafriol i gynnal trafodaethau agored, didwyll ac anodd ynghylch arferion, systemau ac unrhyw newidiadau a/neu welliannau y gall fod angen eu gwneud o ganlyniad i'r FfPA.
   - Mae canllawiau Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Plant, y cyfeirir atynt yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn datgan y dylai ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r oedolyn / plentyn a'r teulu fynychu, oherwydd eu bod yn y lle gorau i ystyried beth ddigwyddodd a nodi dysgu ar gyfer arferion y dyfodol.
   - Felly, dylai aelodau'r grŵp cynllunio sicrhau bod y staff mwyaf priodol yn cael eu cyfarwyddo'n ddigonol, yn mynychu ac yn cyfranogi yn y Digwyddiad Dysgu.

6. **Camau i'w cytuno yn y cyfarfod Cynllunio hwn:**
   - Rhestru'r camau a gwaith a gytunwyd gyda therfynau amser i bob aelod o'r Grŵp Cynllunio.
   - Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol:
     - Trefnu cyfarfod cynllunio ychwanegol / terfynol i adolygu / terfynu manylion ar gyfer y Digwyddiad Dysgu.
     - Archebu'r man cyfarfod ar gyfer y Digwyddiad Dysgu; llunio llythyr gwahodd, cytuno ar agenda unrhyw ddarllen o flaen llaw a'r Digwyddiad Dysgu erbyn y cyfarfod cynllunio nesaf.
     - Cysylltu â'r teulu / gofalwr i egluro$$$esbonio FfPA a chael sylwadau.
     - Cadw cyswllt ag ymarferwyr dynodedig a hysbysu dyddiad y Digwyddiad Dysgu.
     - Drafftio llinell amser erbyn y cyfarfod cynllunio nesaf.
     - Drafftio ffurf yr adroddiad erbyn y cyfarfod cynllunio nesaf.

7. **Ystyriaethau'r Digwyddiad Dysgu:**
   - Sicrhau fod gennych fan cyfarfod niwtral gyda digon o le i symud o gwmpas, cyflwyno llinell amser a gweithio mewn grwpiau.
   - Darparu lluniaeth ac arlwyo.
   - Enwi 'Pobl Ddiogel' rhag ofn y bydd gofyn cymorth ar unrhyw un.
   - Gadael digon o amser i gynnal y digwyddiad yn llwyddiannus; nid oes modd rhuthro digwyddiadau dysgu da.
   - Bod â ffurflenni ymateb ar gyfer cyfranogwyr a blwch post er mwyn bod yn anhysbys.

8. **Yn dilyn y Digwyddiad Dysgu:**
   - Dal i ddiweddaru'r rhieni / teulu / gofalwyr.
   - Sicrhau fod pawb yn deall yr amserlenni ar gyfer y canlynol:
     - Cylchredeg yr Adroddiad Drafft.
     - Cael ymateb.
     - Cyflwyno'r adroddiad i'r GGLl.
     - Cyflwyno'r adroddiad i'r FfPA.
   - Cytuno ar sut i ddatblygu a chytuno ar gynlluniau gweithredu. Efallai y bydd angen i'r Grŵp Cynllunio gyfarfod i wneud hyn.

DRAFFT

Annwyl Gydweithiwr

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol [Cylch Lleol] – Digwyddiad Dysgu

Amser:
Dyddiad:
Lleoliad:

Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA) yw'r sylfaen ar gyfer cynhyrchu dysgu trefnyddol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd ac atgyfnerthu gallu gwasanaethau i gadw oedolion a phlant yn ddiogel.

Mae gan y FfPA ddau brif ddiben – mae modd eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau dysgu o achosion a rhoi cyfleoedd pwysig eraill i ymarferwyr a rheolwyr amlasiantaethol lleol ddysgu.

Un o nodweddion y FfPA yw eu bod yn cynnwys asiantaethau ac ymarferwyr partner mewn Digwyddiad Dysgu i ystyried a dysgu o'r hyn ddigwyddodd er mwyn gwella arferion yn y dyfodol.

Bydd y Digwyddiad Dysgu yn mabwysiadu agwedd adeiladol a chilyddol seiliedig ar ddysgu gyda chanolbwynt ar arfer proffesiynol amlasiantaethol a gweithio rhwng asiantaethau.

Cawsoch amlinell y FfPA hwn eisoes. Y llythyr hwn yw eich gwahoddiad ffurfiol.

Mae gwahoddiad i chi oherwydd y gallech fod wedi gweithio gyda'r achos ac, o ganlyniad, bod gennych rywbeth i gyfrannu at y dysgu at ei gilydd. Gwahoddwyd rhai pobl oherwydd eu bod yn rheoli neu'n gweithio mewn un maes gwaith perthnasol. Y disgwyl yw y byddwch yn mynychu'r digwyddiad pwysig hwn.

Bydd y Digwyddiad Dysgu'n cael ei hyrwyddo'n annibynnol gan.....

Bydd cymorth busnes a gweinyddol yn cael ei ddarparu gan.....

Paratoi ar gyfer y Digwyddiad Dysgu

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ystyried rhywfaint ar eich cysylltiad â'r plentyn / teulu / oedolyn dan sylw. Byddwch gystal hefyd â darllen y wybodaeth ganlynol i baratoi ar gyfer y Digwyddiad Dysgu (rhowch y darllen perthnasol yma).

Bydd strwythur y digwyddiad yn cynnwys y canlynol:

- *Croeso a chyflwyniadau*
- *Amgylchedd ar gyfer dysgu*
- *Cefndir a chyd-destun*
- *Sylwadau'r teulu*
- *Llinell amser adegau allweddol*
- *Cwestiynau a thrafodaethau allweddol*
- *Pwyntiau dysgu*
- *Casgliad a chamau nesaf*

(Rhowch unrhyw drefniadau arlwyo yma os yw hynny'n briodol)

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda chi yn y digwyddiad pwysig hwn, a gobeithiwn y cewch yr agwedd hon yn adeiladol a defnyddiol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch angen rhagor o eglurhad, cysylltwch â ni ar y rhif uchod.

Cofion cynnes,

DRAFFT

Agenda Digwyddiad Dysgu FfPA			
Cyf FfPA:	**DYDDIAD:**	**LLEOLIAD:**	
Trefn y Sesiwn			
EITEM	**PWNC**	**ARWEINYDD**	**AMSERIAD**
1	Croeso a Chyflwyniadau • Pam ein bod yn cynnal y digwyddiad hwn – sut ddaethom ni yma • Naws y digwyddiad dysgu • Sylwadau'r plentyn / oedolyn / teulu		
2	Llinell amser adegau allweddol • Beth ddigwyddodd pryd? • A fethwyd unrhyw beth?		
3	4 Cwestiynau • Beth lwyddodd, beth oedd y meysydd o arferion da? • Beth na lwyddodd yn ein barn? • Beth wnaem ni'n wahanol, beth ddysgwyd gennym? • Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd gennym yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol?		
4	Beth sy'n digwydd nesaf? • Ysgrifennu Adroddiadau • Rhannu'r adroddiad – GGLl, FfPA • Rhannu'r adroddiad – Teulu		

DRAFFT

FFURFLEN ARFARNU DIGWYDDIAD DYSGU FfPA
CYF FfPA:
Dyddiad y Digwyddiad Dysgu:

Sut oedd e i chi?

How was it for you?

DRAFFT

Manylion cyswllt – yn opsiynol: Optional contact details:	
Enw: Name:	
Swydd: Role:	
Tîm: Team:	
Ebost: Email:	
Ffôn: Telephone:	

Helaethiad H Templed Diolch

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyngor Sir [*enw'r cyngor*]

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA)
Digwyddiad Dysgu
[*Cyfeirnod*]
[*Dyddiad*]

Diolch i chi am eich presenoldeb a'ch cyfraniad heddiw.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Llenwch y ffurflen arfarnu a'i gadael ar y ddesg.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau mae ein manylion cysylltu ar waelod y ddalen.
- Byddwn yn llunio adroddiad i nodi'r pwyntiau dysgu.
- Byddwn yn cadw cyswllt â'r teulu ac yn rhoi ymateb iddynt.
- Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Gweithredol Lleol (GGLl).
- Bydd y GGLl yn cynghori sut maent yn dymuno lledaenu'r dysgu.
- Bydd manylion ac adroddiad y Digwyddiad Dysgu'n cael ei borthi'n ôl i'r FfPA rhanbarthol.

Manylion Cysylltu
[*Rhowch staff lleol perthnasol*]

DRAFT

Helaethiad I Templed Adroddiad FfPA

Adroddiad:	**FfPA (enw'r Awdurdod Lleol)**
Cyfeirnod FfPA:	**FfPA CYSUR neu CWMPAS 1/2018 (enw'r Awdurdod Lleol)**
Dyddiad y Digwyddiad Dysgu:	**Rhowch y dyddiad**
Dyddiad cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Lleol (GGLl):	**Rhowch y dyddiad**

1. Cyflwyniad

- Cyfeirio at y ddeddfwriaeth / canllawiau / protocol perthnasol i gynnal yr FfPA.
- Cyfeirio at ble, a sut, y tarddodd y gyfeireb / argymhelliad, e.e. achos arferion da, is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant / Oedolion Rhanbarthol, achos a archwiliwyd, ymchwilio i gŵyn, yr Ombwdsmon.
- Crynhoi'r hyn gaiff ei ystyried a/neu'r digwyddiadau o gwmpas yr achos, digwyddiad neu fater i'w archwilio.
- Rhestru'r egwyddorion allweddol, h.y., gallai gynnwys eglurder, rhoi cyfleoedd i'r teulu gyfrannu – yna caiff y sylwadau hyn eu plethu i'r trafodaethau yn y digwyddiad dysgu.
- Crynhoi sut oedd gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau'n gwybod am y teulu / unigolyn.

2. Y Digwyddiad Dysgu

- Cynhaliwyd y digwyddiad dysgu ar **[dyddiad]** gyda chynrychiolaeth / heb gynrychiolaeth dda yr asiantaethau a weithiodd gyda'r teulu. Roedd **[nifer]** o weithwyr proffesiynol yn bresennol o **[asiantaethau / sefydliadau]**.
- Hwyluswyd y digwyddiad dysgu'n annibynnol gan staff o **[manylion]**.
- Ystyriodd y digwyddiad dysgu linell amser cysylltiadau a digwyddiadau am y cyfnod **[dyddiadau'r llinell amser]**. **[Disgrifiad o sail resymegol y llinell amser]**.
- Gofynnwyd i weithwyr proffesiynol ystyried y cwestiynau canlynol:
  - Beth lwyddodd; oedd yna feysydd o arferion da?
  - Beth fethodd yn eich barn?
  - Beth wnaem ni'n wahanol; beth ddysgwyd gennym?
  - Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd gennym yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol?

DRAFFT

3. Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

3.1 Beth lwyddodd; oedd yna feysydd o arferion da?

3.2 Beth fethodd yn eich barn?

3.3 Beth wnaem ni'n wahanol, beth ddysgwyd gennym?

3.4 Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd gennym yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol? Y rhain yw'r argymhellion.

4. Camau i'w cymryd

- Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i **[GGLI Awdurdod Lleol]** i'w gadarnhau a phenderfynu pa gamau y dylid eu cymryd i ledaenu'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn.
- **[GGLI Awdurdod Lleol]** fydd yn goruchwylio'r cynllun gweithredu cysylltiedig i gyflawni'r argymhellion. Mae cyfrifoldeb ar holl asiantaethau cysylltiedig â'r FfPA i weithredu eu hargymhellion priodol.
- Bydd Grŵp Strategol FfPA Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn derbyn yr hyn a ddysgwyd o adroddiadau FfPA bob chwe mis.

DRAFT

CYNLLUN I WEITHREDU AR ARGYMHELLION YR ADRODDIAD **CYF FfPA: _____**

RHIF	ARGYMHELLIAD	TYSTIOLAETH O'R CAMAU A GYMRWYD EISOES	CAMAU I'W CYMRYD	ARWEINYDD	AMSERLEN	RAG
1.						
2.						
3.						
4.						
5.						